O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L  
C Y M R U

# 2014 Rhif 2568 (Cy. 249)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Caersŵs i Lantwymyn, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Awst 2014* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno neu gerllaw iddo.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Caersŵs i Lantwymyn, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Medi 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd yn Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A489 wrth Moat Lane, Caersŵs hyd at ei chyffordd wrth y gylchfan â'r A489 yng Nglantwymyn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Awst 2014

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.